OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1687

# Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

## RHAN 3

### Darpariaethau trosiannol

**Dynodi cymwysterau**

**10.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys mewn cysylltiad â'r ffurfiau ar gymhwyster sydd, ar 21 Medi 2015, wedi eu rhestru yn y Gronfa Ddata fel "live" (yn y maes "Statws") ac eithrio'r rhai sydd wedi eu rhestru yn yr Atodlen.

(2) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae'r ffurfiau ar gymhwyster i gael eu trin fel pe baent wedi eu dynodi gan Gymwysterau Cymru o dan adran 29 o'r Ddeddf.

(3) Mae pob dynodiad adran 29 yn rhinwedd paragraff (2) i gael ei drin fel pe bai Cymwysterau Cymru o dan adran 30(1) wedi pennu—

(a) 21 Medi 2015 fel y dyddiad y mae'r dynodiad i gael effaith ohono, a

(b) y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn fel y dyddiad y mae'r dynodiad yn peidio â chael effaith pan ddaw'r dyddiad i ben—

(i) y dyddiad adolygu a nodir ar gyfer y ffurf ar gymhwyster ar y Gronfa Ddata ar 21 Medi 2015;

(ii) 31 Awst 2018.